Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

**RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**Gradd 14**
Gyda'r potential i gynyddu i Radd 16
yn amodol ar ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol

**37 awr yr wythnos**

***CYFLOG: £36,876 - £37,849**
(£40,760 - £41,675 os ymgymerir â chyfrifoldebau ychwanegol)

* A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

Rydym yn chwilio i benodi Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol sydd wedi ymrwymo i gyflawni darpariaeth gyfreithiol gynhwysfawr a safonol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Lleolir y swydd yn ein Pencadlys yn Llantrisant, CF72 8LX a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ymgymryd ag ymchwil, darparu cyngor a drafftio dogfennau ar ystod o faterion cyfreithiol gan gynnwys eiddo, cytundebau a GDPR. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon ond nid yn hanfodol.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalennau ‘Gweithio i ni’ ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses hynod gystadleuol a bydd angen i'r Ffurflen Gais arddangos yn glir sut mae'r ymgeisydd yn cwrdd â Meini Prawf y Rhestr Fer a amlygwyd ar y Fanyleb Person.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy e-bost at: personnel@southwales-fire.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, ganol dydd, 07/01/2020.** Cynhelir cyfweliadau i ymgeiswyr a gyrhaeddodd y cam rhestr fer ar Ddydd Mercher yr 22ain o Ionawr 2020.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan Wasanaeth Datgelu'r Alban cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG